# 3
# Cymorth, Hyfforddiant a Datblygiad Pellach

# 1. Cymorth, Hyfforddiant a Datblygiad Pellach

## Gwasanaethau y gallwch gael mynediad o bosib iddyn nhw yn y gwaith

Mae'n bosib bod gan sefydliadau a busnesau mwy adrannau rydych angen cael mynediad iddyn nhw. Bydd eich cyflogwr yn gallu darparu manylion ar sut i gael mynediad iddyn nhw os oes angen.

- Adnoddau Dynol (AD) – AD yn goruchwylio recriwtio, cadw gafael ar staff a datblygu'r gweithle, cyfraith cyflogaeth neu achosion cyfreithiol yn y gweithle.
- Iechyd Galwedigaethol – nod timau Iechyd Galwedigaethol yw cadw gweithwyr yn iach yn y gwaith yn gorfforol ac yn feddyliol. Mi fyddan nhw hefyd yn rheoli unrhyw risgiau yn y gweithle all o bosib arwain at salwch yn ymwneud â gwaith.
- Dysgu a Datblygu – Mae adrannau Dysgu a Datblygu neu hyfforddiant yn gyfrifol am ddatblygu gweithwyr a threfnu cyrsiau hyfforddiant angenrheidiol.
- Cyllid/ Y Gyflogres – Mae Cyllid yn gyfrifol am brosesu eich cyflog. Efallai bydd angen i chi gysylltu â'r gyflogres os oes gennych unrhyw broblemau gyda'ch cyflog, treth neu ddidyniadau benthyciad myfyriwr.

## Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

O bosib bydd gan sefydliadau neu fusnesau mwy gynllun DPP pwrpasol i'w gweithwyr. Yn dibynnu ar eich rôl gall hyn olygu goruchwyliaeth reolaidd neu sesiynau 1:1 gyda'ch goruchwyliwr neu reolwr. Bydd arfarniad blynyddol ac amserlen o hyfforddiant hefyd o bosib yn rhan o'ch DPP.

## Undebau Llafur

Undeb Llafur yw sefydliad gydag aelodau sydd fel arfer yn weithwyr neu weithwyr cyflogedig. Mae'n gofalu am eu diddordebau yn y gwaith drwy wneud pethau fel:

- Sicrhau bod hygyrchedd a chynhwysiad yn cael eu hystyried yn y gweithle
- Trafod cytundebau gyda chyflogwyr ar amodau cyflog
- Trafod newidiadau mawr fel diswyddiadau ar raddfa fawr
- Trafod pryderon aelodau gyda chyflogwyr
- Mynd gydag aelodau i gyfarfodydd disgyblu a chwyno

## Dewis pa Undeb Llafur i ymuno â fo

Os oes undeb yn y gwaith gallwch holi cynrychiolydd yr undeb llafur (rep) ar sut i ymuno. Gall eu manylion cyswllt fod yn llyfryn eich cwmni neu sefydliad, ar fewnrwyd y cwmni neu ar hysbysfwrdd yr undeb. Bydd y cynrychiolydd undeb yn dweud wrthych os ydych yn gymwys i ymuno gan roi ffurflen aelodaeth i chi ei llenwi.

## Manylion cyswllt undeb llafur

Gallwch chwilio ar **list of unions** and **their contact details** a luniwyd gan Swyddog Ardystio, sefydliad annibynnol sy'n gyfrifol am y rheoleiddiad cyfreithiol o undebau.

Gallwch hefyd ddefnyddio adnodd TUC **interactive tool** i helpu dod o hyd i undeb llafur yn eich gweithle, neu un sydd yn berthnasol i'ch swydd chi.

Efallai bydd eich cyflogwr yn gweld y ddogfen isod yn ddefnyddiol:
**Ymwybyddiaeth-o-Awtistiaeth-yn-y-Gweithle_1.pdf (AwtistiaethCymru.org)**

## Dod o hyd i swydd newydd

Efallai eich bod ar gytundeb dros dro neu eisiau chwilio am swydd arall i sicrhau amodau gwell (h.y. cyflog, gwyliau, dilyniant gyrfa). Mae llawer o resymau dros barhau i chwilio am swydd. Ni fyddwn yn dod o hyd i'r swydd iawn ar unwaith; efallai y byddwn angen datblygu sgiliau a gwneud cynnydd er mwyn sicrhau'r swydd yr ydym wir yn dymuno ei chael. Bydd sefydliadau yn y rhestr isod o bosib yn gallu eich helpu gyda hyn:

**Gyrfa Cymru [https://gyrfacymru.llyw.cymru/](https://gyrfacymru.llyw.cymru/)**
Efallai y bydd Gyrfa Cymru yn gallu eich helpu i gynllunio eich gyrfa, paratoi i gael swydd, a dod o hyd ac i wneud cais am y prentisiaethau, cyrsiau a hyfforddiant cywir.

**Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)** [https://jobcentreplusoffices.co.uk/wales](https://jobcentreplusoffices.co.uk/wales)

**Chwilio am swydd**
Gall chwilio am swydd fod yn dasg hynod anodd ond mae yna lawer o bethau y gallwch ei wneud er mwyn hwyluso dipyn ar y broses.

Edrychwch ar ein Llyfryn Cyflogaeth - Chwilio a Gwneud Cais am Swydd am ragor o wybodaeth.

## Dechrau Prentisiaeth

Gallwch gyflawni hyfforddiant pellach neu ddechrau prentisiaeth ac mae pobl i'ch cynorthwyo gyda:

- gwybodaeth ar wasanaethau cyngor ar hyfforddi e.e. gyrfaoedd, cynghorwyr dysgu wedi'u lleoli yn y gwaith
- sut i gael cymorth gyda chyfweliadau ffug, cwblhau ffurflenni cais ayyb.
- Gwasanaethau Cefnogaeth gyda Chyflogaeth
- pa swyddi allwch chi eu gwneud gyda'ch cymwysterau? Neu a oes angen i chi gyflawni cymwysterau eraill i allu gwneud y swydd yr hoffech ei wneud?
- mae ystod o adnoddau ar gael ar [AutismWales.org/cy/rwyn-awtistig/cyflogaeth/](AutismWales.org/cy/rwyn-awtistig/cyflogaeth/) a all fod o gymorth i chi.

## Symud ymlaen i Brentisiaeth Uwch

Os ydych eisoes mewn gwaith ac wedi cwblhau Prentisiaeth Sylfaen, gallwch ystyried cyfleoedd hyfforddi pellach. Gall y darparwr hyfforddiant eich cefnogi gyda hyn a'ch helpu i ystyried:

- parhau gyda'r pwnc galwedigaethol ar lefel uwch
- cwblhau cymhwyster rheoli neu arwain tîm
- os yw eich rôl bresennol yn cyfateb i'r cymhwyster yr ydych yn bwriadu ei gyflawni.

Siaradwch â'ch Asesydd a Chyflogwr am y cyfleoedd sydd ar gael i chi gamu ymlaen yn eich gyrfa.

Am fwy o wybodaeth ar Brentisiaethau, Dysgu Seiliedig ar Waith ac Addysg Bellach cliciwch ar y dolenni isod:

[https://AutismWales.org/wp-content/uploads/2020/09/WBL_Learners_Cym-1.pdf](https://AutismWales.org/wp-content/uploads/2020/09/WBL_Learners_Cym-1.pdf)

[https://AutismWales.org/wp-content/uploads/2020/09/Autism-A-Guide-for-Further-Education-Students_Cym-1.pdf](https://AutismWales.org/wp-content/uploads/2020/09/Autism-A-Guide-for-Further-Education-Students_Cym-1.pdf)